# Llywodraeth Cymru

## Prentisiaeth Caffael a Chyflenwi Masnachol

Cwestiynau Cyffredin

F.1

Gorffennaf 2025

# Adran


| | |
|---|---|
| Dealltwriaeth gyffredinol | 3 |
| Cyfranogiad cyflogwyr | 3 |
| Cyllid a chostau | 4 |
| Hyfforddiant a chefnogaeth | 5 |
| Cynnydd a chanlyniadau | 6 |


Crëwyd y ddogfen hon gan Dîm Caffael a Masnachol, Capasiti a Galluogrwydd Llywodraeth Cymru yn dilyn datblygu'r Llwybr Prentisiaethau i Gymru.

I gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ddogfen hon, cysylltwch â GalluMasnachol@llyw.cymru

# Dealltwriaeth Gyffredinol

## Beth yw Prentisiaeth Caffael?

Mae Prentisiaeth Caffael yn rhaglen hyfforddi strwythuredig sy'n cyfuno profiad ymarferol yn y swydd â dysgu ffurfiol mewn caffael a rheoli cadwyn gyflenwi.

## Pa lefelau o brentisiaethau caffael sydd ar gael yng Nghymru?

Mae prentisiaethau caffael yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd ar Lefelau 3 a 4.
Gellir gweld y llwybr llawn yma: **Caffael a Chyflenwi Masnachol | Prentisiaethau**

## I bwy mae'r brentisiaeth yn addas (staff newydd neu staff presennol)?

Mae'r brentisiaeth yn addas ar gyfer recriwtiaid newydd a gweithwyr presennol sy'n awyddus i ddysgu sgiliau newydd ym maes caffael.

## Beth yw manteision cyflogi prentis caffael?

Mae manteision yn cynnwys datblygu gweithlu medrus, gwella arferion caffael, a chael mynediad at gyllid a chefnogaeth y llywodraeth.

# Cyfranogiad Cyflogwyr

## Beth yw rôl y cyflogwr yn y brentisiaeth?

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am recriwtio, goruchwylio o ddydd i ddydd, mentora a chefnogi datblygiad y prentis.

## Faint o amser fydd y prentis yn ei dreulio ar hyfforddiant o'i gymharu â gwaith?

Fel arfer, mae prentisiaid yn treulio 20% o'u hamser ar hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith, gyda'r gweddill yn cael ei dreulio yn eu rôl.

Mae'r amser y bydd eich prentis allan o'r swyddfa yn amrywio yn ôl y Darparwr Hyfforddiant.

Trafodwch â phob Darparwyr Hyfforddiant er mwyn sefydlu'r model sy'n gweddu orau i'ch

sefydliad, y rôl, a'r gefnogaeth y dylech ei roi.

### A allaf deilwra'r brentisiaeth i weddu i anghenion fy sefydliad?

Gallwch, gall darparwyr hyfforddiant weithio gyda chi i sicrhau fod cynnwys y brentisiaeth yn cyd-fynd â'ch amcanion busnes.

# Cyllid a Chostau

### Pa gyllid sydd ar gael i gefnogi prentisiaethau caffael?

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r rhan fwyaf o’r costau hyfforddi drwy ei Rhaglen Prentisiaethau.

### A oes angen i mi dalu cyflog y prentis?

Oes, mae cyflogwyr yn gyfrifol am dalu cyflog y prentis.

### A oes canllaw ar y cyflog sy’n cael ei argymell ar gyfer prentis?

Nid oes cyflog safonol sy’n cael ei argymell ar gyfer prentis.

Bydd angen i bob sefydliad weithio o fewn eu Hadnoddau Dynol i ddiffinio'r cyflog priodol.

Dylai cyflogwyr ystyried eu strategaeth gweithlu, sut maen nhw’n bwriadu defnyddio'r brentisiaeth yn eu sefydliad, amodau'r gweithlu lleol, denu'r dalent gywir, a dyheadau’r unigolion y maen nhw’n eu recriwtio ar gyfer y dyfodol.

Yn Llywodraeth Cymru, cynigir prentisiaethau fel arfer ar Lefel 3 (Cymorth Tîm £23,258 - £26,901) a Lefel 4 (Swyddog Gweithredol £28,245 – £32,141), ond gallai hyn amrywio yn dibynnu ar ddisgwyliadau'r rôl a sut mae’n cyd-fynd â'r llwybr prentisiaeth.

### Sut ydw i'n gwneud cais am gyllid?

Mae'r Darparwyr Hyfforddiant sydd wedi'u contractio'n derbyn eu dyraniadau cyllid i gefnogi pob prentisiaeth yng Nghymru ym mis Awst bob blwyddyn.

Nid oes unrhyw broses benodol i gyflogwyr sicrhau lle prentisiaeth, ond dylech drafod â darparwyr hyfforddiant cyn gynted â phosibl i sicrhau eu bod yn cynnwys eich angen yn eu rhagolwg.

# Hyfforddiant a Chymorth

### Pa gymorth a roddir i mi fel cyflogwr sy'n awyddus i ddefnyddio'r llwybr prentisiaeth?

Anogir cyflogwyr i weithio gyda darparwr hyfforddiant cymeradwy yn gynnar yn y broses. Mae'r darparwyr hyn yn helpu gyda:

- Dylunio rhaglen y brentisiaeth
- Darparu hyfforddiant
- Cael mynediad at gyllid a chymhellion

Gellir dod o hyd i'r holl ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy yn yr adran cymorth i gyflogwyr yma: [Prentisiaethau - Medr]

### Sut ydw i'n recriwtio prentis caffael?

Gallwch hysbysebu trwy'r Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag neu weithio gyda darparwr hyfforddiant.

# Cynnydd a Chanlyniadau

## Pa gymwysterau fydd y prentis yn eu hennill?

Mae prentisiaid yn ennill cymwysterau sy’n cael eu cydnabod yn genedlaethol mewn caffael a chyflenwi.

Lefel 3:
Gwybodaeth - CIPS Lefel 3: Tystysgrif Caffael Uwch | CIPS
Cymhwysedd - Lefel 3: Tystysgrif mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi (Cymru)

Lefel 4:
Gwybodaeth - CIPS Lefel 4: Diploma mewn Caffael a Chyflenwi | CIPS
Cymhwysedd - Lefel 4: Tystysgrif mewn Caffael a Rheoli’r Gadwyn Gyflenwi (Cymru)

### A yw'r cymhwyster cymhwysedd yr un fath â'r cymhwyster CIPS?

Mae'r cymwysterau cymhwysedd ar Lefel 3 a Lefel 4 yn gymwysterau annibynnol ychwanegol sy'n cael eu cwblhau yn ychwanegol at Dystysgrif CIPS Lefel 3 neu Ddiploma CIPS Lefel 4.

Mae'r cymhwyster cymhwysedd ar y ddwy lefel yn cyd-fynd yn agos â chymhwyster gwybodaeth CIPS er mwyn sicrhau bod modd defnyddio’r wybodaeth drosglwyddadwy yn ymarferol. Er enghraifft, mae Modiwl Craidd Lefel 4 CIPS, Caffael a Chyflenwi yn Ymarferol (L4M8), yn dysgu sut i gymhwyso'r cylch caffael. Mae'r cymhwyster cymhwysedd newydd, Lefel 4 Caffael a Rheoli’r Gadwyn Gyflenwi, yn ymgorffori'r cylch caffael trwy gydol y modiwlau ac yn tywys dysgwr trwy broses gaffael nodweddiadol – cynllunio caffael, cyrchu, rheoli contractau, yn ogystal â'r ystyriaethau galluogi fel digidol a data, CSR, a strategaeth.

## Pa lwybrau gyrfa y gall prentis caffael eu dilyn?

Mae’r llwybrau gyrfa yn helaeth ond yn cynnwys swyddog caffael, rheolwr categori, a dadansoddwr cadwyn gyflenwi.

## Sut alla i gefnogi cynnydd y prentis ar ôl iddo orffen?

Gallwch gynnig hyfforddiant pellach, mentora, neu gyfleoedd am ddyrchafiad.

Mae'n bwysig ystyried llwybr gyrfa’r prentis i gefnogi recriwtio a chadw talent.